Naw Llith a Charol

Canllaw Gwasanaeth y Nadolig

Gallwch ddefnyddio hwn fel canllaw ar gyfer cynllunio eich gwasanaeth Naw Llith a Charol eich hun. Rydyn ni wedi awgrymu gweddïau, carolau ac emynau, ond mae croeso i chi ddewis rhai gwahanol sy'n gyfarwydd i'ch cynulleidfa.

Rhagarweiniad

Emyn

Clywch lu'r Nef yn seinio'n un

Gweddi Atolygol

Mae cariad yn amyneddgar ac yn garedig. Mae cyfiawnder yn ddiamynedd ac felly maen nhw, yn un, wedi ymrwymo i'w gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n rym pwerus, ac yn cynnig cydbwysedd na allai ond Duw obeithio amdano. Mae gweddi yn mynegi dymuniad dyfnaf ein calonnau. Wrth i'r Adfent ein gwneud ni'n ddisgwylgar, boed i gariad a chyfiawnder ein hymgorffori fel y gwnaethon nhw gyda'r un rydyn ni'n aros amdano. Duw, yr hwn y mae ei ewyllys yn rhedeg trwy hanes, Yahweh, yr 'Ydwyf' Mawr na ellir cyfyngu arno, tywallt dy ysbryd ar ein cynulliad, ar ein cofio, ar ein disgwyl. Fel y gwneler dy ewyllys, ac y daw'r ymgnawdoledig i'n canol ni, a'i ail-eni yn ein calonnau.

Emyn

O tyred di, Emanŵel

Llith 1: Cain ac Abel
Genesis 4:3-16

Mae'r testun heddiw yn hynod berthnasol i'n dydd – mae'n flwyddyn a mwy bellach ers i drais y tu hwnt i bob amgyffred sgubo drwy'r Dwyrain Canol ac yn anorfod mae ei grafangau wedi ymestyn yn ddyfnach ac ymhellach. Sut gallwn ni ddechrau ymateb i arswyd rhyfel, i'r dirmyg sydd ganddo tuag at ddynoliaeth? Gan ddefnyddio delwedd bryfoclyd, ni all Cain fyth fynd adref eto, crwydro yw ei dynged. Ystyr Nod yw tir crwydro – trais, casineb, dicter, rhagfarn – maen nhw i gyd yn peri i ni golli ein hunain, ac yn ein tynghedu i grwydro. Heddiw, gweddïwn am heddwch, am derfyn ar bob crwydro, am gartref, diogel a sicr, i holl blant Duw. Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn darparu'r cyfan y gallan nhw, bwyd, dŵr glân ac arian parod, fel y gall pobl wneud dewisiadau priodol drostyn nhw eu hunain. Maen nhw'n darparu lloches mewn mannau anobeithiol a chefnogaeth seicolegol i'n brodyr a'n chwiorydd sydd wedi dioddef trawma.

Emyn

Ganol Gaeaf Noethlwm

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghrair ACT. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 rhif elusen yr Alban SC039150 Rhif Cwmni 5171525 Cymorth Cristnogol Iwerddon: Rhif elusen Gogledd Iwerddon NIC101631 Rhif Cwmni NI059154 a rhif elusen Gweriniaeth Iwerddon 20014162 Cwmni rhif 426928 Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol. © Cymorth Cristnogol Mehefin 2022 J121236

Llith 2: Ble mae Duw?
Salm 42

"Felly ble mae Duw heddiw? Rwy'n synhwyro bod Duw yn y gweithwyr rheng flaen dewr sy'n aberthu eu hunain i'r gwasanaeth o achub bywydau, yn y cymydog ifanc sy'n gwirfoddoli i fynd i siopa ar ran yr henoed ar ei stryd... Mae Duw yn aelodau ein heglwys yn Nairobi sydd wedi bod yn rhoi rhoddion bwyd i deuluoedd y mae eu prif enillwyr cyflog wedi colli eu swyddi. Mae Duw yn y nifer fawr o eglwysi ac unigolion yn y DU, lwerddon a thu hwnt sydd wedi cyfrannu trwy Cymorth Cristnogol i bobl sydd gyfandir i ffwrdd fel nad ydyn nhw'n mynd i gysgu'n llwglyd ac yn oer. Ledled y byd mae Duw yn agos atom trwy galonnau a dwylo'r rhai sy'n estyn allan i gyffwrdd â'u cymdogion. Heb gyffyrddiad Duw trwy eich geiriau a'ch gweithredoedd caredig chi, byddai calonnau llawer dan orthrwm ac wedi'u digalonni. Ond oherwydd gweithredoedd gwir gymdogion – y cymydog lawr y stryd a'r cymydog gyfandir i ffwrdd – mae llawer o bobl a oedd yn gofyn i'w hunain lle mae Duw yn gallu dweud erbyn hyn – 'Ym mhob un ohonon ni, mae Duw gyda ni. Diolchwn i ti, O Dduw, dy fod ti gyda ni."

Geiriau gan Bob Kikuyu, Cynghorydd Diwinyddiaeth Byd-eang Cymorth Cristnogol. Darn o bregeth ganddo yn 2020 yn ystod pandemig COVID-19.

Emyn

Tradd. Ar gyfer heddiw'r bore

Llith 3: Newyddion Da

Eseia 61:1-4

Mae Shede yn wraig, yn fam, ac yn nain. Cyn i ryfel ei gorfodi i ffoi o Darfur, roedd Shede yn gweithio mewn bwyty ac yn gofalu am ei fferm organig. Nawr, mae hi'n byw mewn lloches y Cenhedloedd Unedig yng Ngwersyll Ffoaduriaid Wedweil yn Ne Sudan. Yno, mae Shede yn gofalu am ei merch ieuengaf a'i hwyres, y ddwy yn chwech oed.

Mae De Sudan yn wlad sy'n cael ei rhwygo gan ryfel a'r argyfwng hinsawdd. Mae prinder bwyd, prisiau uchel, diffyg dŵr glân a glanweithdra gwael yn gwneud bywyd bob dydd yn her enfawr. Gyda newyn, diffyg maeth, trawma, a thrais yn erbyn menywod yn rhemp, mae tlodi eithafol yn mynd o ddrwg i waeth. Ac mae mwy o deuluoedd yn cyrraedd i geisio lloches bob dydd.

Law yn llaw â'n partneriaid dibynadwy, mae Cymorth Cristnogol yn cefnogi cymunedau yn Ne Sudan i greu bywyd newydd wrth aros am ddiwedd y rhyfel. Mae ein rhaglen cymorth ariannol yn cynnig cymorth brys ar unwaith i deuluoedd sy'n chwilio am loches, fel y gallan nhw amddiffyn eu hunain a'u plant rhag newyn, diffyg maeth a salwch.

Emyn

O deuwch, ffyddloniaid

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghrair ACT. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 rhif elusen yr Alban SC039150 Rhif Cwmni 5171525 Cymorth Cristnogol Iwerddon: Rhif elusen Gogledd Iwerddon NIC101631 Rhif Cwmni NI059154 a rhif elusen Gweriniaeth Iwerddon 20014162 Cwmni rhif 426928 Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol. © Cymorth Cristnogol Mehefin 2022 J121236

Llith 4: Beth sydd ei angen? Micha 6:6-12

"*Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser,a byw'n wylaidd ac ufudd i dy Dduw.*"

Geiriau a welwyd ar blacardiau Cymorth Cristnogol yn y Diwrnod Gweithredu Byd-eang ar gyfer COP26, uwchgynhadledd hinsawdd y Cenhedloedd Unedig yn Glasgow yn 2021. Mae galw ar arweinwyr y byd i weithredu'n gyfiawn mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd yn un ffordd y gallwn garu ein cymdogion byd-eang. Rydyn ni'n cerdded yn wylaidd ac mewn undod â'r rhai sy'n wynebu anghyfiawnder didostur, nid trwy siarad drostyn nhw, ond trwy chwyddo eu lleisiau pan fyddan nhw'n galw am drugaredd rhag effeithiau anhrefn hinsawdd.

Emyn

O dawel ddinas Bethlehem

Llith 5: Cân y Forwyn Fair

Luc 1: 46-55

Wyneb menyw yw wyneb tlodi byd-eang. Efallai ei bod wedi colli ei bywoliaeth yn sgil trychinebau hinsawdd; efallai ei bod wedi gorfod gadael ei chartref oherwydd rhyfel; efallai na fydd hi'n gwybod o ble ddaw pryd nesaf ei phlant; efallai mai ceisio cadw ei hun a'i theulu'n fyw fydd yn llenwi'i dydd, ac na fydd amser ganddi i gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ei chymuned, hyd yn oed pe bai croeso i'w llais. Ond dydy hi ddim yn ddiymadferth, peidiwch â chredu'r myth hwnnw. Mae hi'n wydn ac yn benderfynol yn wyneb adfyd. Nid tosturi sydd ei angen arni ond rhywun i wrando ar ei galwadau am gyfiawnder a'u gwireddu. Fyddwn ni'n gwrando ar ei llais proffwydol?

Emyn

Pan aned gynt mewn tlodi (Can gan Cymorth Cristnogol)

Llith 6: Hanes y Geni

Luc 2:1-7

Gwyrth y geni, bythol rodd. Roedd Beryl yn gefnogwraig i Cymorth Cristnogol am ran helaeth o'i bywyd. Fe'i ganed yn 1927, a bu'n gweithio fel nyrs a bydwraig am flynyddoedd lawer. Yn ddiweddarach yn ei bywyd, dangoswyd cariad a charedigrwydd iddi ar ôl llawdriniaeth llygad gan nyrs, a oedd yn hanu o Affrica. Roedd yn golygu cymaint i Beryl fel iddi benderfynu gofio am Cymorth Cristnogol yn ei hewyllys. Mae cymynrodd Beryl yn darparu gofal iechyd, yn enwedig gofal i famau beichiog, yn Sierra Leone, Burundi, a De Sudan. Wrth i ni gofio genedigaeth Iesu mewn amgylchiadau llai na delfrydol, rydyn ni'n ddiolchgar am bobl fel Beryl, sy'n gadael i'w cariad barhau i ffynnu.

Emyn

I orwedd mewn preseb

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghrair ACT. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 rhif elusen yr Alban SC039150 Rhif Cwmni 5171525 Cymorth Cristnogol Iwerddon: Rhif elusen Gogledd Iwerddon NIC101631 Rhif Cwmni NI059154 a rhif elusen Gweriniaeth Iwerddon 20014162 Cwmni rhif 426928 Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol. © Cymorth Cristnogol Mehefin 2022 J121236

Llith 7: Y Bugeiliaid

Luc 2:8-20

Mae cymunedau bugeiliol heddiw yn dal i fod â pherthynas agos â'r ddaear; maen nhw mewn cytgord â'r ddaear ac yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan bob newid yn ei phatrymau naturiol. Boed yn dda byw sydd ar goll, tir fferm sydd dan ddŵr, cnydau sydd wedi'u llosgi'n ulw, neu gartrefi sydd wedi'u dinistrio, mae'r argyfwng hinsawdd yn parhau i amharu ar fywydau a bywoliaethau, a hynny'n aml yn y cymunedau sy'n lleiaf cyfrifol am ei achosi. Mae cyfiawnder iddyn nhw'n ddeublyg – cymorth gwytnwch a chefnogaeth ariannol ar unwaith ar gyfer colled a difrod; yn ogystal ag ymgyrchu tymor hwy ac eirioli dros newidiadau mewn polisi hinsawdd ar lefel fyd-eang. Wrth i ni ddathlu'r Newyddion Da, a ddywedwyd yn gyntaf wrth fugeiliaid yn y maes liw nos, gadewch i ni gofio'r rheini y mae eu bywoliaeth wedi ei blethu'n annatod â bywoliaeth y greadigaeth.

Emyn

Yn nhawel wlad Jiwdea dlos

Llith 8: Y Doethion a Herod

Mathew 2:1-12

Pobl sydd wedi'u dadleoli'n fewnol yw'r rhai sydd wedi cael eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi oherwydd rhyfel, troseddau hawliau dynol, neu am eu bod wedi colli eu bywoliaeth oherwydd yr argyfwng hinsawdd. Maen nhw'n aml yn symud i ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd gyda chymorth dyngarol, gan eu gwneud nhw yn rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn y byd. Wrth i ni fyfyrio ar yr ansicrwydd gwleidyddol a'r hinsawdd o ofn y ganwyd Iesu iddo, rydyn ni'n cofio am y miliynau o bobl sy'n wynebu ofn, ansicrwydd, ac ansefydlogrwydd parhaus heddiw.

Emyn

Draw yn ninas Dafydd Frenin

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghrair ACT. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 rhif elusen yr Alban SC039150 Rhif Cwmni 5171525 Cymorth Cristnogol Iwerddon: Rhif elusen Gogledd Iwerddon NIC101631 Rhif Cwmni NI059154 a rhif elusen Gweriniaeth Iwerddon 20014162 Cwmni rhif 426928 Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol. © Cymorth Cristnogol Mehefin 2022 J121236

Llith 9: Yr Ymgnawdoliad

Ioan 1:1-4 (Y Neges)

Cariad a chyfiawnder law yn llaw,
a'r byd yn dal ei wynt. Mae'r Nadolig yn nesáu, mae'r ymgnawdoliad ar ddigwydd – y saib disgwylgar cyn y gri a'r anadl gyntaf a'r bywyd newydd, bregus - cymysgedd rhyfeddol o wytnwch bregus. Wrth i'r Adfent ein gwneud ni'n ddisgwylgar, boed i gariad a chyfiawnder ein hymgorffori fel y gwnaethon nhw gyda'r un rydyn ni'n aros amdano. Dim ond dechrau'r daith yw ei eni. Wedi'r gri a'r anadl gyntaf, daw'r hanfod – y meithrin a'r anghenion. Hanes y baban a fydd yn newid ein byd, ond y cafodd hyd yn oed ei fodolaeth ei herio o'r cychwyn gan gyfundrefn ormesol ei ddydd, gan y tlodi a dreiddiai i bob cwr o'i gymuned a chan drafferthion byd ansicr – byd lle nad oedd lle iddo ef na'i deulu, yn ôl yr hanes. Duw, yr hwn y mae ei ewyllys yn rhedeg trwy hanes, Yahweh, yr 'Ydwyf' Mawr na ellir cyfyngu arno, tywallt dy ysbryd ar ein cynulliad, ar ein cofio, ar ein disgwyl. Fel y gwneler dy ewyllys, ac y daw'r ymgnawdoledig i'n canol ni, a'i ail-eni yn ein calonnau.

Emyn

Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio

Gweddi i Gloi

Duw cariad a chyfiawnder
A ninnau'n ddisgwylgar am dy ymgnawdoliad
A thithau wedi dy eni o gnawd a gwaed mewn preseb
I ddau ar y cyrion
A dy gyhoeddi'n gyntaf i fugeiliaid dinod
Rhyfeddwn at y ffyrdd
rwyt ti'n ymddangos
Mewn lleoedd annisgwyl
Trwy bobl gyffredin
Mewn ffyrdd annhebygol

Wrth i ni ddathlu
Helpa ni i gofio
am ein cymdogion byd-eang
Ar yr un stryd â ni
ac ym mhedwar ban byd

Y rhai sy'n dyheu ac yn gweithio tuag at
Fywyd llawn, rhydd o dlodi
Rho ddiffyg amynedd i ni
wrth i ni ymdrechu am gyfiawnder
Ac amynedd wrth i ni garu ein gilydd
Amen

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghrair ACT. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 rhif elusen yr Alban SC039150 Rhif Cwmni 5171525 Cymorth Cristnogol Iwerddon: Rhif elusen Gogledd Iwerddon NIC101631 Rhif Cwmni NI059154 a rhif elusen Gweriniaeth Iwerddon 20014162 Cwmni rhif 426928 Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol. © Cymorth Cristnogol Mehefin 2022 J121236